Cyngor Sir CEREDIGION

ADRODDIAD I'R: **Cyngor**

DYDDIAD Y CYFARFOD: **8 Gorffennaf 2022**

TEITL: **Adroddiad Blynyddol y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio 2021-22**

PWRPAS YR ADRODDIAD: **Darparu gwybodaeth am waith y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio yn ystod 2021-22**

ER GWYBODAETH

Portffolio Cabinet ac Aelod Cabinet: **Y Cynghorydd Matthew Vaux, Aelod Cabinet ar gyfer Materion Cyfreithiol a Llywodraethu, Tai, Pobl a Threfniadaeth a Diogelu'r Cyhoedd**

Cefndir

Mae Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2011 fel y'i diwygiwyd gan Ddeddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021, yn ei gwneud hi'n ofynnol i bob Cyngor Sir sefydlu Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio. Mae'r Mesur yn rhagnodi swyddogaethau'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio.

Mae Canllawiau Ymarferol CIPFA ar gyfer Awdurdodau Lleol a'r heddlu (argraffiad 2018) yn nodi ei bod yn bwysig bod y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio yn cael ei ddwyn i gyfrif o ran i ba raddau y mae wedi cyflawni ei bwrpas. Bydd hyn yn cynnwys a yw'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio wedi:

- cyflawni ei gylch gorchwyl y cytunwyd arno
- mabwysiadu arferion a argymhellir
- asesu ei effeithiolrwydd ei hun
- asesu anghenion hyfforddi
- asesu effaith y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio ar lywodraethu, risg a rheolaeth o fewn yr Awdurdod

Yng nghyfarfod y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio ar 14 Medi 2017 cytunwyd y byddai'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio yn cyhoeddi Adroddiad Blynyddol sy'n darparu asesiad ar effeithiolrwydd y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio ac i roi sicrwydd bod materion wedi cael sylw a symud ymlaen.

Defnyddir Adroddiad Blynyddol y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio ar gyfer y canlynol:

a) Tynnu sylw at y gwaith a wnaed gan y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio yn ystod y flwyddyn;
b) Dangos sut mae'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio wedi gwneud gwahaniaeth;

c) Amlinellu'r flaenraglen waith ar gyfer y flwyddyn i ddod; a
d) Darparu hunanasesiad a sicrwydd.

Y Sefyllfa Bresennol

Cyflwynwyd Adroddiad ar Adroddiad Blynyddol drafft y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio 2021-2022 i'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio yn ei Gyfarfod ar 6 Mehefin 2022. (gweler yr Adroddiad yma: https://cyngor.ceredigion.gov.uk/documents/s3104/Eitem%2014%20Adroddiad%20Blynyddol.pdf?LLL=1).

Cytunodd y Pwyllgor i'r canlynol:

(i) nodi cynnwys Adroddiad Blynyddol drafft y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio 2021-22; a

(ii) cymeradwyo Adroddiad Blynyddol drafft y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio ar gyfer 2021-22 (yn amodol hefyd ar ymgorffori cofnod presenoldeb Aelodau'r Pwyllgor yn ystod y flwyddyn yn yr adroddiad cyn ei gyflwyno i'r Cyngor).

Mae'r cofnod presenoldeb bellach wedi'i gynnwys o dan Adran 2 (Cyfarfodydd) Adroddiad Blynyddol y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio 2021-2022, sydd ynghlwm yn **Atodiad 1** ac a gyflwynir drwy hyn i'r Cyngor gan Gadeirydd y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio 2021-2022.

Os bydd yr Adroddiad Blynyddol yn cael ei gymeradwyo gan y Cyngor, bydd yn cael ei gyhoeddi ar wefan y Cyngor wedi hynny.

A gwblhawyd Asesiad Effaith Integredig? Naddo

Os naddo, esboniwch pam
Crynodeb: *Nid yw'r adroddiad hwn yn cynrychioli newid mewn polisi neu strategaeth.*

LLESIANT CENEDLAETHAU'R DYFODOL:	**Hirdymor:**	Amherthnasol
	Integreiddio:	Amherthnasol
	Cydweithio:	Amherthnasol
	Cynnwys:	Amherthnasol
	Atal:	Amherthnasol

Argymhelliad / Argymhellion: Bod y Cyngor yn nodi cynnwys Adroddiad Blynyddol y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio ar gyfer 2021-22.

Rhesymau dros y penderfyniad: Cael sicrwydd bod trefniadau effeithiol yn eu lle i reoli materion ariannol, dulliau rheoli risg, rheolaeth fewnol a threfniadau llywodraethu corfforaethol yr awdurdod a bod trefniadau archwilio mewnol ac allanol yr awdurdod yn ddigonol.

Trosolwg a Chraffu:	Amherthnasol
Fframwaith Polisi:	Trefniadau Democrataidd
Blaenoriaethau Corfforaethol:	Thema drawsbynciol i sicrhau bod gwasanaethau yn addas at y diben
Goblygiadau Cyllid a Chaffael:	Dim
Goblygiadau Cyfreithiol:	Dim
Goblygiadau Staffio:	Dim
Goblygiadau Eiddo/Asedau:	Dim
Risg(iau):	Dim
Pwerau Statudol:	Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2011
Papurau Cefndir:	Dim
Atodiadau:	**Atodiad 1:** Adroddiad Blynyddol 2020-21 y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio
Enw Cyswllt:	Elin Prysor
Swydd:	Swyddog Arweiniol Corfforaethol: Gwasanaethau Cyfreithiol a Llywodraethu (a Swyddog Monitro)
Dyddiad:	7/6/2022

Atodiad 1

Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio

Cyngor Sir
CEREDIGION
County Council

Adroddiad Blynyddol 2021/22

ADRODDIAD BLYNYDDOL CADEIRYDD Y PWYLLGOR LLYWODRAETHU AC ARCHWILIO YNGHYLCH GWEITHGARWCH Y PWYLLGOR YN YSTOD Y FLWYDDYN 2021/22

1. CYFLWYNIAD

Dyma Adroddiad Blynyddol y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio a'i amcan yw cynnig crynodeb byr o'r gwaith a gyflawnwyd yn ystod y flwyddyn, nodi'r gwaith sy'n mynd rhagddo a chyflwyno'r flaenraglen waith ar gyfer y flwyddyn i ddod.

Yn ogystal, bydd yr Adroddiad yn cynnig asesiad o effeithiolrwydd y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio ac yn cynnig sicrwydd o'r ffaith y rhoddwyd sylw i faterion a'u bod wedi cael eu symud yn eu blaen.

Mae'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio ('y Pwyllgor') yn grŵp bach, ac yn ystod 2021-22, roedd yn cynnwys saith Aelod, roedd ganddo strwythur a oedd yn cynnwys cydbwysedd gwleidyddol, ac roedd yn cynnwys un Aelod Lleyg.

2. CYFARFODYDD

Trefnodd y Pwyllgor chwe chyfarfod ar gyfer y flwyddyn, i gyd-fynd â Blaenraglen Waith fanwl a fyddai'n cynnwys yr holl feysydd gwaith sy'n ofynnol dan ei gylch gorchwyl, ac fe'u cynhaliwyd ym mis Mehefin, mis Medi a mis Tachwedd (2021) ac ym mis Ionawr (2 Gyfarfod) a mis Mawrth (2022). Roedd agendâu y cyfarfodydd yn llawn eitemau i'w hystyried, eu trafod a'u hadolygu, a bu un o'r Cyfarfodydd a gynhaliwyd ym mis Ionawr 2022 yn ystyried yr Adolygiad o'r Gwasanaeth Cynllunio gan Archwilio Cymru ('AC).

Mae'n dda nodi bod gwaith y Pwyllgor wastad yn cael ei gefnogi'n dda gan y Prif Weithredwr, y Swyddog Arweiniol Corfforaethol ('CLO') dros Gyllid a Chaffael, CLO Cyfreithiol a Llywodraethu/Swyddog Monitro ('MO'), CLO-Polisi, Perfformiad a Diogelu'r Cyhoedd, Rheolwr Corfforaethol Archwilio Mewnol ('CMIA') a'r Swyddog Llywodraethu, yn ogystal ag AC.

Attendance at Meetings

Cyfarfod * P: Presennol A: Absennol drwy ymddiheuriad	**Y Cyng Elizabeth Evans (Cadeirydd)**	**Y Cyng Rowland Rees-Evans (Dirprwy Gadeirydd)**	**Y Cyng Gareth Davies**	**Y Cyng Peter Davies**	**Y Cyng Keith Evans**	**Y Cyng Matthew Woolfall Jones**	**Yr Athro Ian Roffe**
3/6/21	P	P	P	A	P	A	P
9/9/21	P	P	P	P	P	A	P
25/11/21	P	A	P	P	P	A	P
17/1/22	P	P	A	P	P	A	P
19/1/22	P	P	P	P	P	P	P
10/3/22	P	P	A	A	P	A	P

3. RÔL A GYFLAWNIR GAN Y PWYLLGOR

Yn ôl Canllawiau Ymarferol CIPFA i Bwyllgorau Archwilio Awdurdodau Lleol 2018, diben y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio yw:

- Gweithredu fel rhan allweddol o fframwaith llywodraethu awdurdod. Ei swyddogaeth yw darparu adnodd annibynnol ac ar lefel uchel er mwyn cynorthwyo llywodraethu da a rheolaeth ariannol gyhoeddus gadarn; a

- Chynnig sicrwydd annibynnol i'r rhai sy'n gyfrifol am lywodraethu ynghylch digonolrwydd y fframwaith rheoli risg, yr amgylchedd rheolaeth fewnol ac uniondeb y prosesau llywodraethu ac adrodd ariannol. Trwy oruchwylio archwilio mewnol ac allanol, mae'n gwneud cyfraniad pwysig i sicrhau bod trefniadau sicrwydd effeithiol mewn grym.

Isod, nodir crynodeb o'r gwaith a gyflawnwyd gan y Pwyllgor yn ystod y flwyddyn er mwyn cyflawni hyn. Oherwydd y Pandemig, cynhaliwyd yr holl gyfarfodydd ar blatfform rhith. Er gwaethaf unrhyw amhariadau o ganlyniad i'r Pandemig, roedd y Pwyllgor yn awyddus i barhau gyda'i waith, ac mae wedi gwneud hynny mewn ffordd amserol.

Gweithgarwch Archwilio Mewnol

- Cymeradwyodd y Pwyllgor Adroddiad Blynyddol y Gwasanaeth Archwilio Mewnol ('IA') 2020/21 gan gynnwys barn sicrwydd flynyddol y Rheolwr Corfforaethol – Archwilio Mewnol ('CMIA') ynghylch fframwaith llywodraethu, rheoli risg a threfniadau rheoli mewnol y Cyngor, a oedd wedi cyfrannu at y Datganiad Llywodraethu Blynyddol.
  Gofynnodd y Pwyllgor i IA geisio esboniad am y broblem gyfathrebu a oedd wedi codi yn y Gwasanaeth Ystadau, a arweiniodd at yr oedi wrth ddarparu gwybodaeth i AC, a bod adroddiadau cynnydd mewnol chwarterol yn parhau am y flwyddyn i ddod, ynghyd â'r adroddiad blynyddol, er mwyn gwirio gwaith y Gwasanaeth yn unol â'i gapasiti llawn.
- Cefnogwyd yr Adroddiad uchod gan adroddiadau chwarterol gan CMIA er mwyn cofnodi cynnydd IA trwy gydol y flwyddyn.
- Bu'r Pwyllgor yn ystyried yr Adroddiadau Cynnydd IA canlynol yn ystod 2021-22:
  - Chwarter 4 2020-21 (Cyfarfod 3 Mehefin 2021);
  - Chwarter 1 2021-22 (Cyfarfod 9 Medi 2021);
  - Chwarter 2 2021-22 (Cyfarfod 19 Ionawr 2022); a
  - Chwarter 3 2021-22 (Cyfarfod 10 Mawrth 2022).
- Cymeradwyodd y Pwyllgor Adroddiad Gwrth-dwyll IA Blynyddol 2020/21, a oedd yn cynnig crynodeb o waith gwrth-dwyll IA a gynhaliwyd yn ystod y flwyddyn.
- Cymeradwyodd y Pwyllgor Strategaeth a Chynllun gwaith IA CMIA ar gyfer 2022/23.
- Cymeradwywyd diweddariad o Siarter IA (2022-23) gan y Pwyllgor.
  Gwnaethpwyd diwygiadau i ystyried y trefniadau gwrth-dwyll sy'n cynorthwyo ymarfer y Fenter Twyll Genedlaethol ('NFI'), er mwyn cynnig sicrwydd nad yw

cyflwyno swydd Swyddog Llywodraethu yn y strwythur yn effeithio ar annibyniaeth a gwrthrychedd CMIA ac IA, gan ystyried y newid mewn CMIA ar 1 Ionawr 2022 ac er mwyn gwneud gwneud cyfeiriad at effaith barhaus y Pandemig ar waith IA yn 2021/22.

- Yn dilyn yr ymarfer NFI, bu'r Pwyllgor yn ystyried hunan-arfarniad NFI IA, a oedd yn cynnig sicrwydd bod y Cyngor yn llwyr gefnogol o'r ymarfer.
- Yn ystod blwyddyn ariannol 2020/21, cymeradwyodd y Pwyllgor Adroddiad IA ynghylch Rheoli Risg, a gyflwynwyd i'r Pwyllgor yn dilyn Adolygiad IA o Fframwaith Rheoli Risg y Cyngor a'r gweithdrefnau corfforaethol ategol a oedd mewn grym yn ystod blwyddyn ariannol 2020/21. Adroddodd IA mai dim ond mân gamau gweithredu a nodwyd, ac y cyflawnwyd un o'r rhain yn syth, gan arwain at gryn sicrwydd bod systemau rheoli, llywodraethu a phrosesau risg cadarn yn eu lle.
- Ar 3 Mehefin 2021, ystyriodd y Pwyllgor Adroddiad IA am yr Adolygiad o'r Fframwaith Llywodraethu 2020/2021 (y Fframwaith sy'n cefnogi'r Datganiad Llywodraethu Blynyddol (AGS) ar gyfer 2020/21) yn dilyn Adroddiad am y Fframwaith Llywodraethu, AGS a Chod Llywodraethu Corfforaethol Lleol yn cael ei gyflwyno i'r Pwyllgor ym mis Chwefror 2021 (bu Aelodau'r Pwyllgor yn ymwneud â'i adolygiad hefyd). Rhoddodd AC farn archwilio am AGS ar sail ei gysondeb gyda'u gwybodaeth a'i gydymffurfiaeth gyda'u gwybodaeth a'i gydymffurfiaeth gyda deddfwriaeth. Roedd yr adolygiad IA yn cynnwys asesiad o'r gweithdrefnau sydd mewn grym er mwyn llunio'r Fframwaith Llywodraethu, y fethodoleg sgorio a ddefnyddiwyd, ac ystyriaeth o'r 'dystiolaeth' a nodwyd yn y fframwaith, a oedd yn cyd-fynd â gwaith AC ynghylch yr AGS ac a oedd yn cynnig sicrwydd o'r ffaith bod y weithdrefn yn gadarn, yn cynnwys ffocws ac yn effeithiol.
- Ar 10 Mawrth 2022, bu'r Pwyllgor yn ystyried Adolygiad Fframwaith Llywodraethu IA 2021/22 hefyd, gan nodi'r adolygiad o'r Fframwaith.
- Cymeradwyodd y Pwyllgor Strategaeth y Cyngor ynghylch Atal Twyll, Llwgrwobrwyo a Llygredd (gan gynnwys Atal Gwyngalchu Arian) i'w chyflwyno i'r Cabinet ac i'r Cyngor.
- Ystyriodd y Pwyllgor Adroddiad IA am y Gwasanaeth Ystadau ynghylch camau a gymrwyd i wella cyfathrebu rhwng AC a'r Gwasanaeth. Cynhaliodd CMIA gyfarfod gyda'r Rheolwr Corfforaethol dros Dwf a Menter ar 29 Gorffennaf 2021 a chadarnhawyd y camau a gymrwyd gan Reolwr Archwilio AC, a gadarnhaodd bod y cyfathrebu wedi gwella.

Diweddariadau ac Adroddiadau Arolygiaeth a Rheoliadol

Yn ystod blwyddyn 2021-22, cytunodd y Pwyllgor, er mwyn sicrhau eglurder a hwylustod wrth gyfeirio, wahanu'r eitemau Rheoliadol i 2 Adroddiad ar wahân:
1. Diweddariadau ac Adroddiadau Arolygiaeth a Rheoliadol; ac
2. Ymatebion y Cyngor i Adroddiadau Arolygiaeth a Rheoliadol.

1. Diweddariadau ac Adroddiadau Arolygiaeth a Rheoliadol a ystyriwyd yn ystod y flwyddyn:

Diweddariadau Chwarterol AC i GAC

- Amserlen Rhaglen Waith Chwarter 2 2021-22 (cyflwynwyd yn ystod Cyfarfod y Pwyllgor ar 19 Ionawr 2022; ac

- Amserlen Rhaglen Waith Chwarter 3 2021-22 (cyflwynwyd yn ystod Cyfarfod y Pwyllgor ar 10 Mawrth 2022).

Adroddiadau Archwilio Allanol (AC) Lleol

- Crynodeb Archwilio Blynyddol 2021 Cyngor Sir Ceredigion;
- Cynllun Archwilio 2021-22;
- Llythyr i Gadeirydd y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio – Adroddiadau ac Argymhellion AC (Amserlen a Rhaglen Waith AC;
- Brîff Prosiect – Sicrwydd ac Asesu Risg, Cyngor Sir Ceredigion; a
- Brîff Prosiect – Adolygiad o'r Gwasanaeth Cynllunio, ac Adolygiad o Wasanaeth Cynllunio Cyngor Sir Ceredigion 2020-21.

Adolygiad AC o'r Gwasanaeth Cynllunio 2020-21

Ar 17 Ionawr 2022, ystyriodd y Pwyllgor Adroddiad am Adolygiad AC o'r Gwasanaeth Cynllunio Ebrill – Gorffennaf 2021. Cyflwynodd AC yr Adroddiad a rhoddodd Cadeirydd y Pwyllgor Rheoli Datblygu ('DCC') adborth gan DCC. Awgrymodd y Pwyllgor y dylai pwyntiau DCC a godwyd gael eu hanfon at CLO – Yr Economi ac Adfywio, er mwyn cael ymatebion gan AC, yna y dylid eu dosbarthu i'r Aelodau/Swyddogion perthnasol.

Roedd Aelodau eraill y Pwyllgor wedi ymholi a gwneud sylwadau am gynnwys yr adroddiad, gan gynnwys materion a oedd yn ymwneud â'r Strategaeth Gorfforaethol, Cynaladwyedd a Natur Wledig. Pwysleisiwyd bod gofyn cael mecanwaith er mwyn dangos y cysylltiadau gyda'r Strategaeth Gorfforaethol a dogfennau strategol eraill yn well yn yr adroddiadau a gyflwynir i DCC.

Ystyriodd y Pwyllgor Ymateb Rheoli y Cyngor, fel y'i cyflwynwyd gan CLO – Yr Economi ac Adfywio, a chawsant grynodeb o waith y Grŵp Gorchwyl a Gorffen hefyd gan ei Gadeirydd. Nododd y Cadeirydd waith y Grŵp Gorchwyl a Gorffen, gan groesawu'r cynnydd a sicrhawyd hyd yn hyn a chan nodi bod cyfeiriad clir wedi cael ei bennu er mwyn rhoi sylw i argymhellion yr adroddiad.

Nododd y Pwyllgor gynnwys Adolygiad AC a'r 10 argymhelliad a roddwyd, gan nodi Ymateb Rheoli a Chynllun Gweithredu y Cyngor, a chytunodd gael diweddariad yn ystod y cyfarfod ym mis Mawrth, er mwyn i'r weinyddiaeth newydd ym mis Mai 2022 gael ei hysbysu o'r sefyllfa gyfredol mewn perthynas â'r argymhellion.

Briffiau Prosiect/Adroddiadau AC Cenedlaethol

- Briff Prosiect – Gwerth am Arian Taliadau Uniongyrchol (Tachwedd 2020);
- Briff Prosiect – Tlodi yng Nghymru (Awst 2021);
- Briff Prosiect – Asesiadau o'r Effaith ar Gydraddoldeb a'u defnydd wrth wneud penderfyniadau
- Prosiect Asesiad Cynaladwyedd Ariannol 2020-21;
- Briff Prosiect – Camu Ymlaen (2021-22) (gan gynnwys Hysbysiad Preifatrwydd yr Archwilydd Cyffredinol);
- Briff Prosiect – Meithrin cydnerthedd cymdeithasol a hunanddibyniaeth ymhlith dinasyddion a chymunedau (Awst 2021);

- Briff Prosiect – Mentrau cymdeithasol (Awst 2021);
- Adroddiad Cenedlaethol – Adfywio Canol Trefi yng Nghymru (Medi 2021) a Llythyr Archwilio Cymru – Adolygiad Archwilydd Cyffredinol Cymru o Adfywio Canol Trefi.
- Adroddiad Darlun o'r Gwasanaethau Cymdeithasol
    - Darlun o Lywodraeth Leol
    - Darlun o Ofal Cymdeithasol
    - Darlun o Ofal Iechyd
    - Darlun o Ysgolion
    - Darlun o Addysg Uwch a Phellach

- Adroddiad Cenedlaethol – Adroddiad Comisiynu Cartrefi Gofal ar gyfer Pobl Hŷn (Rhagfyr 2021).
- Adroddiad Cenedlaethol – Cydweithio rhwng y Gwasanaethau Brys (Ionawr 2022).
- Adolygiad Gwaelodlin Datgarboneiddio Newid Hinsawdd gan gynnwys llythyr gan Dwrnai Cyffredinol Cymru a Galwad am Dystiolaeth (Tachwedd 2021).

Ystyriwyd y canlynol hefyd gan y Pwyllgor:

- y Protocol ar gyfer cyfathrebu rhwng AC a'r Cyngor. Mae'r Swyddog Llywodraethu yn darparu cymorth i'r Pwyllgor hefyd wrth gyfathrebu gydag AC ac mae'n dosbarthu adroddiadau, wrth iddynt gyrraedd, i'r Pwyllgor er mwyn iddo eu hystyried cyn cyfarfodydd y Pwyllgor;
- Adroddiad AC (wedi'i eithrio) ynghylch Seibergadernid, cytunwyd nodi cynnwys, casgliad ac argymhelliad AC a nodwyd bod meddalwedd briodol yn cael ei phrofi er mwyn galluogi'r defnydd o iPads mewn amgylchedd diogel yn y dyfodol.
- pryderon AC ynghylch materion ailwerthuso a chyfathrebu y Gwasanaeth Ystadau a godwyd mewn adroddiadau ISA260, mewn perthynas â'r Datganiad o'r Cyfrifon. Yn ystod cyfarfod dilynol gyda'r Prif Weithredwr, ni chafwyd gwybodaeth y gofynnwyd amdani ym mis Ionawr a rhoddwyd sicrwydd gan AC y byddai'r wybodaeth hon ar gael er mwyn cwblhau'r archwiliad (effaith ar gwblhau'r Datganiad o'r Cyfrifon ar gyfer 2020/21).

  Adroddodd y Rheolwr Corfforaethol – Twf a Menter i'r Pwyllgor bod sylwadau AC yn gywir, a chynhaliwyd prisiadau fis Hydref a mis Tachwedd y llynedd, fodd bynnag, roeddent yn cwblhau'r asesiad terfynol o broses fewnol y prisiadau hyn ar hyn o bryd. Byddai gofyn rhoi sylw i rai materion ond roedd yn teimlo'n hyderus am ansawdd y prisiadau a'u llwybr archwilio, a byddai Swyddogion ar gael ym mis Medi i roi sylw i unrhyw faterion gan AC, felly byddai sylw yn cael ei roi i'r pwyntiau allweddol yn ISA 260 mewn ffordd hyderus.

  Ategodd yr aelodau eu pryderon am y mater, gan gytuno y dylai AC adrodd am unrhyw oedi neu bryderon pellach i'r Cadeirydd. Cytunodd y Pwyllgor ar y canlynol hefyd:

    - y dylid rhoi diweddariad yn ystod y cyfarfod ym mis Medi 2021 ynghylch proses recriwtio, cyfathrebu ac ailwerthuso y Gwasanaeth er mwyn i'r Pwyllgor gael sicrwydd bod sylw wedi cael ei roi i'r materion a godwyd yn y datganiad o'r cyfrifon;

- y trefnir cyfarfod rhwng y Prif Weithredwr, y Cadeirydd a'r Is-Gadeirydd i drafod y broses er mwyn rhoi sylw i'r materion hynny; ac
- y dylid ystyried pwynt cyswllt ar ffurf swyddog dynodedig rhwng AC a'r Gwasanaeth os codir materion yn ystod y datganiad o'r cyfrifon sydd ar y gweill.

2. Ymatebion y Cyngor i Adroddiadau Arolygiaeth a Rheoliadol a ystyriwyd yn ystod y flwyddyn

Fel yr uchod, bu'r Pwyllgor yn ystyried ymateb y Cyngor i Adolygiad AC o'r Gwasanaeth Cynllunio ar 17 Ionawr 2022.

Ffurflenni Ymateb Rheolwyr ('MRFs')
Er mwyn osgoi dyblygu dianghenraid, cytunodd y Pwyllgor mai dim ond MRFs nad oedd ymatebion terfynol wedi cael eu cyflwyno amdanynt i'r Pwyllgor ddylai barhau i gael eu cyflwyno, ac y dylid parhau i gadw cofnod o'r holl MRFs, gan gynnwys MRFs wedi'u cwblhau, yn fewnol. Cytunodd y Pwyllgor hefyd y bydd MRFs gyda diweddariadau yn parhau i gael eu darparu fel dogfennau word.

- MRFs a ystyriwyd (2019-20, 2020-21):
  - (Drafft)'*Gwella ein Perfformiad' Mynd i'r Afael â Thwyll yng Nghymru* (30/7/2020);
  - *Adolygiad o Fyrddau Gwasanaeth Cyhoeddus* (7/10/19);
  - *Cysgu Allan yng Nghymru – Problem i Bawb; Cyfrifoldeb i Neb* (23/7/2020);
  - *Y 'Drws Blaen' i Ofal Cymdeithasol i Oedolion* (11/9/19)
  - *Cynnydd o ran rhoi'r Ddeddf Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol ar waith* (21/11/19);
  - *Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol: Archwiliad o ddylunio a gweithredu Model Gwasanaethau Integredig y Cyngor – Cyngor Sir Ceredigion* (20/12/19);
  - *Y Fenter Twyll Genedlaethol yng Nghymru 2018-20* (13/10/20);
  - *System Gwybodaeth Gofal Cymunedol Cymru* (15/10/20);
  - *Effeithiolrwydd Awdurdodau Cynllunio Lleol yng Nghymru* (6/6/2019); a
  - (Drafft) *Masnacheiddio mewn Llywodraeth Leol* (6/10/2020).
- MRFs a ystyriwyd (2021-22):
  - *Adfywio Canol Trefi* (Medi 2021);
  - *Asesiad Cynaladwyedd Ariannol* (Medi 2021); ac
  - *Adolygiad Archwilio Cymru o Wasanaeth Cynllunio y Cyngor* (Hydref 2021).

Ystyriodd y Pwyllgor y canlynol hefyd:

- Ymateb y Cyngor i:
  - *Adolygiad Gwaelodlin Datgarboneiddio Newid Hinsawdd* (galwad am dystiolaeth)
  - *Adroddiad Comisiynu Cartrefi Gofal ar gyfer Pobl Hŷn* (Adroddiad Cenedlaethol) (Ymateb ar lafar gan y Gwasanaeth)
- Adroddiad am *Adroddiad Cynaladwyedd Ariannol* 2020-21 AC ac *adroddiad am Gynaladwyedd Ariannol Llywodraeth Leol – Effaith Covid-19, Adfer a*

Sialensiau yn y Dyfodol. Cyflwynwyd hwn yn dilyn canlyniad *Asesiad Cynaladwyedd Ariannol* 2020-21 AC o'r Cyngor ac *Adroddiad am Gynaladwyedd Ariannol Llywodraeth Leol* AC.

Roedd gwaith Cydymffurfiaeth AC a adolygwyd yn cynnwys:

- *Ardystio Grantiau a Ffurflenni 2019-*20 – *Cyngor Sir Ceredigion*; a
- *Thystysgrif – Archwiliad o Asesiad Perfformiad 2020-21 Cyngor Sir Ceredigion*.

Arolygiaeth Gofal Cymru ('AGC')

Bu'r Pwyllgor yn ystyried:

- *Archwiliad Sicrwydd 2021* AGC a gafodd y Swyddog Arweiniol Corfforaethol – Porth Cynnal/Cyfarwyddwr Statudol Gwasanaethau Cymdeithasol (dyddiedig 2 Gorffennaf 2021) ac estynnodd longyfarchiadau i'r Gwasanaeth am Adroddiad rhagorol; ac
- *Adroddiad Archwiliad am Gartref Gofal Preswyl Hafan Deg* AGC ac *Adroddiad am Gartref Gofal Preswyl Yr Hafod* AGC.

Estyn

Ystyriodd y Pwyllgor Lythyr gan Estyn am waith y Cyngor wrth gynorthwyo ysgolion yn ystod Pandemig Covid-19 a'i ganfyddiadau dilynol, a adroddwyd i'r Cabinet ac i'r Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Cymunedau Dysgu hefyd. Ym mis Mai 2022, cynhaliodd Estyn ail gyfarfod gyda phob Awdurdod Lleol, gan ganolbwyntio ar waith y Cyngor wrth ymateb i argymhellion ei Adroddiad Cenedlaethol. Anfonwyd y llythyr at y Prif Weithredwr ym mis Gorffennaf 2021, gan amlinellu gwaith y Cyngor yn y meysydd hynny. Estynnodd y Pwyllgor longyfarchiadau i'r Gwasanaeth am Adroddiad rhagorol.

Ystyriaethau am y Fframwaith Rheoliadol

- Mae'r Gofrestr Risg Gorfforaethol yn eitem reolaidd ar yr agenda, ac fe'i hystyrir yn ystod pob Cyfarfod. Hysbyswyd y Pwyllgor:
    - Bod sgôr risg cyffredinol *R003 Perfformiad a Gwelliant Corfforaethol* wedi cael ei godi, yn bennaf o ganlyniad i'r cam o gyflwyno Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) ym mis Ebrill 2021. Yn dilyn hyn, gostyngwyd sgôr y risg er mwyn adlewyrchu'r sefyllfa ddiweddaraf ynghylch ailgyflwyno Cynllunio busnes a chyfarfodydd chwarterol y Bwrdd Perfformiad yn dilyn cyfnod pan na fu'n cyfarfod yn ystod 2020/21 er mwyn ymateb i'r Pandemig.
    - Bod sgôr *Risg R004 Parhad Busnes* wedi codi i adlewyrchu risg ymosodiadau meddalwedd wystlo ar rwydwaith y Cyngor a'r effaith y byddai hyn yn ei chael ar y gallu i barhau gweithrediadau a darparu gwasanaethau hanfodol.
    - Bod *Risg R009 Rheoli Gwybodaeth* wedi cael ei ehangu i *Reoli Gwybodaeth a Chydnerthedd Seiberddiogelwch* er mwyn adlewyrchu pwysigrwydd cynyddol seiberddiogelwch gyda Staff swyddfa sy'n gweithio gartref.
    - Bod sgôr *Risg R016 Brexit* wedi codi er mwyn dynodi'r pryderon mwyaf diweddar ynghylch cyflenwad llafur a nwyddau, yn enwedig wrth gyfeirio at ddiffyg gyrwyr cerbydau nwyddau trwm.

Roedd y Pwyllgor wedi darparu adborth ar gyfer Swyddogion perthnasol, ac wedi cynnwys yr angen i roi sylw i'r risg sy'n gysylltiedig gyda diffyg gyrwyr cerbydau nwyddau trwm ac effaith hyn ar wasanaethau lleol a chenedlaethol. Nodwyd y byddai hyn yn cael ei adlewyrchu yn y gofrestr ac y byddai'r Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Cymunedau Ffyniannus yn ystyried y diffyg gyrwyr yn y gwasanaeth casglu sbwriel a'i effaith ar y gwasanaeth.

- Bod *Risg R018 Covid-19* wedi lleihau i ystyried y sefyllfa ddiweddaraf ynghylch risgiau sy'n gysylltiedig â'r Pandemig yn dilyn llwyddiant y rhaglen frechu.
- Bod *Risg R019 Newid Hinsawdd a Llifogydd/Erydu Arfordirol* wedi cael i gyflwyno gan gyfuno risgiau blaenorol Rheoli Carbon (R012) ac Erydu Arfordirol (R013) yn un risg cyffredinol ynghylch newid hinsawdd, gan gynnwys risgiau megis mwy o achosion o lifogydd, sychder a stormydd. Mae camau lliniaru yn cynnwys datblygu cynllun gweithredu a Strategaeth Newid Hinsawdd Gorfforaethol yn nodi sut y bydd y Cyngor yn sicrhau carbon sero net erbyn 2030.
  Roedd adborth gan y Pwyllgor wedi cynnwys yr angen i ymgysylltu â'r cyhoedd ynghylch Newid Hinsawdd a Llifogydd/Erydu Arfordirol o ganlyniad i'r tywydd garw posibl yn ystod y gaeaf, ac roedd gofyn gwneud hyn er mwyn rhoi sylw i bryderon preswylwyr am y risgiau hyn
- Cyflwynwyd *Risg R020 Clefyd Coed Ynn* a rhoddwyd camau lliniaru yn eu lle gan gynnwys llunio cynllun gweithredu, grŵp llywio ac arolwg o ardaloedd y rhoddir blaenoriaeth uchel iddynt er mwyn nodi lleoliadau/cyflwr coed Ynn.
  Roedd adborth gan y Pwyllgor wedi cynnwys yr angen i ystyried y risg sy'n gysylltiedig â choed sy'n dioddef o glefyd coed ynn, yn enwedig gyda'r tywydd garw posibl yn ystod y gaeaf, y byddai modd ei gynnwys yn y rhaglen waith er mwyn rhoi sylw i'r clefyd coed ynn ar lwybrau troed ac ar hyd ffyrdd y Cyngor.
- Cyflwynwyd *Risg R021 Ffosffadau*. Roedd rheidrwydd ar y Cyngor i ystyried cyngor gan Gyfoeth Naturiol Cymru ('NRW') a argymhellodd y dylid gweithredu cyfyngiadau cynllunio o ganlyniad i lefelau ffosffadau uchel yn y Teifi. Byddai hyn yn cael effaith arwyddocaol ar y sir trwy atal datblygiad adeiladu ar draws 44.6% o Geredigion, gan effeithio ar dwf economaidd.

Roedd adborth gan y Pwyllgor ar gyfer Swyddogion yn cynnwys yr angen i roi sylw eto i'r risg uchel sy'n gysylltiedig ag archwiliadau diogelwch bwyd.

Datganiad Llywodraethu Blynyddol ('AGS')

- Ystyriodd y Pwyllgor Adroddiad am Gynnydd AGS 2021/22 – Cynllun Gweithredu y flwyddyn Gyfredol ar 3 Mehefin 2021, a chytunodd nodi'r Adroddiad Cynnydd am gamau gweithredu a nodwyd yn AGS ac y byddai AGS yn cael ei adrodd bob chwarter i'r Pwyllgor yn y dyfodol.
- Ar 9 Medi 2021, ystyriodd y Pwyllgor Adroddiad am Gynnydd AGS 2021-22 a Chynllun Gweithredu y flwyddyn Gyfredol, a'i dderbyn. Nodwyd bod adolygiad o AGS 2021/22 yn mynd rhagddo, ac y byddai'r Gweithdy blynyddol gydag Aelodau'r Pwyllgor a Swyddogion priodol yn cael ei gynnal ym mis

Tachwedd/Rhagfyr 2021 er mwyn paratoi AGS drafft i'w gymeradwyo. Yn ogystal, cododd Aelod o'r Pwyllgor ddatganiadau diddordeb Prif Swyddogion fel mater, a chytunodd gysylltu ag MO ynghylch y mater.

- Adolygwyd y Fframwaith Llywodraethu yn ystod y Gweithdy a gynhaliwyd ar 30 Tachwedd 2021, yn unol ag argymhellion AC a defnyddiwyd y canlyniadau er mwyn drafftio'r AGS.
- Ar 19 Ionawr 2022, ystyriodd y Pwyllgor Ddogfen y Fframwaith Llywodraethu, Cod Llywodraethu Corfforaethol Lleol Drafft 2022-23 ac AGS Drafft 2021-22, a gytunodd argymell i'r Cyngor y dylid cymeradwyo'r Cod a'r AGS drafft.
  Yn ogystal, argymhellodd y Pwyllgor y dylid cynnwys esboniad o'r bandiau sgorio yn yr AGS, a bod '*cof corfforaethol'* yn cael ei sefydlu er mwyn sicrhau parhad, ac er mwyn sicrhau bod cyswllt rhwng argymhellion mewn adroddiadau, a pholisïau, hunanasesiadau a fframweithiau'r Cyngor, a bod hyn yn cael ei adlewyrchu yn yr AGS er mwyn sicrhau gweithgarwch olrhain a monitro. Nodwyd y byddai sylw yn cael ei roi i hyn yng Nghofnod Camau Gweithredu Cyfarfod y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio hefyd.
  Yn ogystal, gofynnodd y Cadeirydd am gael gwahodd y CLO – Polisi, Perfformiad a Diogelu'r Cyhoedd i gyfarfod nesaf y Pwyllgor er mwyn rhoi diweddariad am brosesau ymgysylltu â'r cyhoedd y Cyngor oherwydd y mynegwyd pryderon bod y wybodaeth a goladwyd ar gyfer yr ymarferion hyn yn annigonol.
- Cymeradwywyd AGS Drafft 2021-22 a Chod Llywodraethu Corfforaethol Lleol 2022-23 gan y Cyngor ar 3 Mawrth 2022. Cadarnhawyd i'r Cyngor:
  - Y byddai testun ychwanegol yn cael ei gynnwys ar gyfer y dystiolaeth, y camau gweithredu a'r sgorio posibl yn y GFD ac ar gyfer y cyflawniadau, y camau gweithredu a'r canlyniadau llywodraethu corfforaethol yn AGS drafft 2021-2022, er mwyn cysylltu gydag argymhellion Archwilio Cymru yn ei Adolygiad o'r Gwasanaeth Cynllunio. Byddai'r dogfennau diwygiedig hyn yn cael eu cyflwyno i'r Cyngor unwaith eto ar ôl i'r newidiadau gael eu gwneud a'u hystyried gan y Pwyllgor.
  - Ychwanegwyd yr esboniadau ynghylch sgorio/bandiau, yn unol â chais y Pwyllgor, i'r GFD a'r AGS drafft, ynghyd â mân gywiriad ychwanegol yn yr AGS drafft i adlewyrchu'r ffaith bod y Cod Llywodraethu Corfforaethol Lleol wedi cael ei adolygu ymhellach er mwyn ystyried newidiadau parhaus i lywodraethu oherwydd pandemig y coronafeirws.
- Nododd y Cyngor gynnwys GFD 2021-2022, cymeradwyodd AGS drafft 2021-22, a Chod Llywodraethu Corfforaethol Lleol 2022-2023 i'w gyhoeddi (caiff drafft pellach o'r AGS, fel yr uchod, ei gyflwyno eto i'r Pwyllgor a'r Cyngor).
- Ystyrir bod Cynllun Gweithredu AGS yn eitem sefydlog ar yr agenda.

* Yn ogystal, gweler y cyfeiriad at AGS isod dan '*CANLYNIADAU A/NEU EFFEITHIAU gwaith y Pwyllgor'*

Adrodd Ariannol

- Yn dilyn cytundeb gan y Pwyllgor ar 12 Tachwedd 2020 y byddai'r Rhaglen Gyfalaf yn cael ei chyflwyno i'r Pwyllgor bob chwarter, ac y byddai unrhyw ymholiadau ynghylch cynnwys yr Adroddiad yn cael eu cyflwyno i'r Swyddogion cyn y cyfarfod, ystyriodd y Pwyllgor Adroddiad am Chwarter 3 y Rhaglen Gyfalaf ar 3 Mehefin 2021. Nododd y Pwyllgor gynnwys yr Adroddiad, yn unol

ag ymholiad ynghylch gwariant o £150,000 ar ffonau clyfar, a eglurwyd gan Swyddogion i'r Pwyllgor yn dilyn hyn fel rhan o Gofnod Cyfarfodydd y Pwyllgor.

- Adolygodd y Pwyllgor Ddatganiad Cyfrifon Blynyddol y Cyngor (tan 31 Mawrth 2021) a'r Ffurflen Flynyddol ar gyfer Awdurdod Harbwr Ceredigion (tan 31 Mawrth 2021), cyn eu cyflwyno i'r Cyngor i'w cymeradwyo.
- Cafodd y Pwyllgor Adroddiad Archwiliad o Ddatganiadau Ariannol blynyddol AC (ISA260) ar gyfer 2020-21, gan ystyried materion yn codi o'r Archwiliad. Cytunodd y Pwyllgor nodi cynnwys yr Adroddiad, estynnodd longyfarchiadau i'r Gwasanaeth am yr Adroddiad rhagorol ac am waith ychwanegol wrth ddosbarthu grantiau Covid-19 i fusnesau/gwasanaeth y 3ydd sector, a diolchodd i Swyddogion yn y Gwasanaeth Ystadau am eu gwaith wrth roi sylw i'r materion a godwyd mewn Adroddiadau ISA260 blaenorol.
- Ystyriodd y Pwyllgor Adroddiad am Bolisi Darpariaeth Isafswm Refeniw Diwygiedig 2021/22 a chytunodd gefnogi'r Polisi, yn unol ag adolygiadau cyfnodol. Yn ogystal, cytunodd y Pwyllgor y byddai arbedion refeniw sy'n cael eu cynnwys yn yr Adroddiad (AC wedi cytuno arnynt) yn cael eu cyflwyno i'r Cyngor ar 17 Gorffennaf 2021.

Gwaith Arall

- Cafodd y Pwyllgor Adroddiad am newidiadau pellach sy'n ymwneud â'r Pwyllgor, yn deillio o Ddeddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021 ('Deddf 2021') a'i heffaith ar Bwyllgorau Archwilio, gan gynnwys newidiadau arfaethedig i'r Cyfansoddiad, y broses barhaus o recriwtio aelodau lleyg a'r gofyniad bod Cydbwyllgor Corfforaethol Canolbarth Cymru yn cael Is-Bwyllgor Llywodraethu ac Archwilio.
  Roedd aelodau o'r Pwyllgor wedi cael eu cynnwys yn y Panel Dethol Rhestr Fer ar gyfer recriwtio Aelodau Lleyg hefyd.
  Yn ogystal, cynigiwyd cyfle i'r Pwyllgor roi sylwadau am Ymgynghoriad Llywodraeth Cymru ynghylch arweiniad sy'n cynorthwyo'r broses o sefydlu Cydbwyllgorau Corfforaethol dan Rhan 5 Deddf 2021.

- Ystyriodd y Pwyllgor Adroddiad am Ganllawiau Statudol ynghylch perfformiad a llywodraethu prif Gynghorau dan Rhan 6 Deddf 2021, gan gynnwys rôl a dyletswyddau'r Pwyllgor, a chyhoeddi ymatebion i'r ymgynghoriad.
- Cafodd y Pwyllgor Adroddiad am Ymateb y Cyngor i Gwestiynau Ymgynghoriad Llywodraeth Cymru am Reoliadau'r Pŵer Cymhwysedd Cyffredinol (Diben Masnachol) (Amodau) (Cymru) 2021.
- Ar 9 Medi 2021, ystyriodd y Pwyllgor fersiwn drafft Adroddiad Blynyddol y Cadeirydd 2020-21 cyn ei gyflwyno i'r Cyngor. Cymeradwyodd y Pwyllgor yr Adroddiad ar yr amod ei fod yn cynnwys cyfeiriad at y ffaith bod y Pwyllgor wedi bod yn paratoi, yn ystod 2020-21, i roi sylw i gyfrifoldebau newydd y Pwyllgor mewn perthynas â llywodraethu a'i fod wedi cyflawni rôl rhagweithiol wrth wella'r gwasanaethau a ddarparir gan y Cyngor, yn ôl yr angen.
- Ystyriodd y Pwyllgor adroddiad a oedd yn cynnig diweddariad ar lafar gan y Rheolwr Corfforaethol – Twf a Menter am waith a gyflawnwyd ynghylch Prisiadau Asedau.
- Ystyriodd a nododd y Pwyllgor Adroddiad ynghylch rhoi sylw i faterion sy'n ymwneud â phrisiad asedau yn deillio o Adroddiad AC 2019/20 a mewnbwn dilynol AC, a oedd yn cadarnhau sut y rhoddwyd sylw i gyfathrebu rhwng AC a

Gwasanaeth yr Economi ac Adfywio cyn yr adolygiad o waith Prisiadau Asedau 2020/21.

- Cymeradwyodd y Pwyllgor Adroddiad am Fframwaith Datblygu CLlLC i Gynghorwyr yng Nghymru (Ebrill 2021) a Disgrifiadau Rôl a Manylebion Person Aelodau'r Fframwaith (Mehefin 2021).
- Ystyriodd y Pwyllgor yr Adroddiad Canmoliaeth, Cwynion a Rhyddid Gwybodaeth Blynyddol, a gyflwynwyd er mwyn cynnig trosolwg i'r Pwyllgor o'r gweithgarwch Canmoliaeth, Cwynion a Rhyddid Gwybodaeth ('FOI') (gan gynnwys Rheoliadau Gwybodaeth Amgylcheddol ('EIR') a gafwyd gan y Cyngor yn ystod y flwyddyn ariannol flaenorol (2020/21), gan gynnwys gwybodaeth am y gweithgarwch cwynion a gyfeiriwyd at Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru. Nodwyd yr Adroddiad gan y Pwyllgor a chytunodd y dylid ei gyflwyno i'r Pwyllgor yn gyntaf flwyddyn nesaf, er mwyn iddo ei ystyried cyn i'r fforymau eraill ei ystyried (gan bod gofyn i'r Pwyllgor ystyried yr adroddiad hwn, yn unol â'i swyddogaethau cwynion newydd, yn unol â Deddf 2021).
- Cymeradwyodd y Pwyllgor y cam o gyflwyno Cofnod Camau Gweithredu Cyfarfod y Pwyllgor i'w gynnwys fel eitem reolaidd ar yr Agenda ar gyfer Blaenraglen Waith y Pwyllgor, ac awgrymwyd y dylid cyflwyno'r math hwn o gofnod yn yr holl Bwyllgorau Trosolwg a Chraffu ac y dylid cynnwys geiriau teitl pobl colofn ar bob tudalen o'r Cofnod. Cyflwynwyd y Cofnod Camau Gweithredu er mwyn i'r Pwyllgor gael sicrwydd bod trefniadau effeithiol mewn grym i reoli materion ariannol yr awdurdod, ei weithgarwch rheoli risg a rheoli mewnol a'i drefniadau llywodraethu corfforaethol.
- Ystyriodd y Pwyllgor Adroddiad am drefniadau Cadeirydd ac Is-Gadeirydd y Pwyllgor, gan gytuno:
    - y dylid penodi'r Dirprwy Gadeirydd (o 5 Mai 2022) o blith yr Unigolion Lleyg;
    - yn ystod Cyfarfod cyntaf y Pwyllgor ar ôl 5 Mai 2022, y byddai angen penodi Cadeirydd a Dirprwy Gadeirydd;
    - byddai gofyn i Swyddogion gysylltu â'r Unigolion Lleyg er mwyn gofyn iddynt fynegi diddordeb yn rôl y Cadeirydd/Is-Gadeirydd;
    - y dylid newid y Cadeirydd a'r Dirprwy Gadeirydd bob dwy flynedd;
    - nodwyd y byddai'r Pwyllgor heb Gadeirydd/Is-Gadeirydd o 5 Mai 2022 tan 29 Mehefin 2022 (Cyfarfod o'r Pwyllgor wedi'i drefnu ar gyfer y dyddiad hwn); a
    - byddai cyfarfod yn cael ei drefnu cyn gynted ag y bo modd yn dilyn y Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol ar 27 Mai 2022 i benodi Cadeirydd/Is-Gadeirydd.

Rhwydwaith Cadeiryddion Pwyllgorau Archwilio Cymru Gyfan

Ar 6 Medi 2021, mynychodd y Cadeirydd gyfarfod Rhwydwaith Cadeiryddion Pwyllgorau Archwilio Cymru Gyfan (a gynhaliwyd o bell), a'i nodau yw annog:

- Rhannu arfer da;
- Adnabod ffyrdd arloesol o gyflawni cyfrifoldebau ffurfiol rôl y Cadeirydd mewn ffordd effeithiol;
- Y cyfle i gwmpasu materion cenedlaethol a rhanbarthol presennol ac yn y dyfodol, ynghyd ag ymatebion posibl i'r sialensiau hyn;
- Fforwm er mwyn rhoi a cheisio cyngor rhwng cydweithwyr sy'n wynebu sialensiau tebyg; a

- Chyfle mentora neu ddatblygu ar gyfer Cadeiryddion newydd.

Cynigiodd CIPFA ac AC eu cymorth wrth ddarparu hyfforddiant, a oedd yn canolbwyntio ar:

1. Deddf 2021 – Dyletswyddau Perfformiad a Phwyllgorau Llywodraethu ac Archwilio;
2. Delio â Chwynion mewn Awdurdodau Lleol; a
3. Gweithredu Polisi – Pleserau a Dilemâu.

4. BLAENRAGLEN WAITH

Paratowyd Blaenraglen Waith, sy'n cynnwys yr eitemau sefydlog canlynol ar yr agenda:

1. Adroddiadau a Diweddariad Rheoliadol ac Arolygiaeth;
2. Ymatebion y Cyngor i Adroddiadau Rheoliadol ac Arolygiaeth;
3. Adroddiadau Cynnydd Chwarterol Archwilio Mewnol;
4. Adroddiadau Cynnydd AGS;
5. Cofrestr Risg Gorfforaethol;
6. Blaenraglen Waith; a
7. Chofnod Camau Gweithredu Cyfarfodydd y Pwyllgor.

Nododd y Pwyllgor ar 9 Medi 2021 bod yr Adroddiad Gwariant Cyfalaf wedi cael ei dynnu allan o'r Flaenraglen Waith, fel yr oedd y Cadeirydd wedi cytuno.

5. CANLYNIADAU A/NEU EFFEITHIAU gwaith y Pwyllgor

<u>AGS</u>

* gweler amserlen cyswllt y Pwyllgor gydag AGS uchod hefyd.

Adolygodd y Pwyllgor AGS 2020/21 cyn ei gynnwys gyda'r Datganiad o Gyfrifon ym mis Tachwedd 2021, gan gynnwys mân ddiwygiadau ac er mwyn adlewyrchu'r ffaith bod camau gweithredu y disgwyliwyd iddynt fod wedi cael eu cymryd yn flaenorol, bellach wedi cael eu cymryd. Adolygodd a diweddarodd y Pwyllgor AGS ar 25 Tachwedd 2021, a chytunodd argymell i'r Cyngor ei fod yn cymeradwyo AGS diwygiedig 2020-21.

Roedd adolygiad o Fframwaith Llywodraethu 2020/21 wedi amlygu'r angen:

- I'r MO roi cyngor pellach i Swyddogion am yr angen i ddatgelu buddiannau mewn sefydliadau y mae neu y gallai eu buddiannau wrthdaro gyda buddiannau'r Cyngor, gan gynnwys:
  - Contractwyr;
  - Llywodraethwyr Ysgol;
  - Clercod Cynghorau Tref a Chymuned;
  - Aelodau Cynghorau Tref a Chymuned; a

- Llywodraethwyr Ysgol.
- MO a Gwasanaethau Democrataidd CLO i barhau i gynnal adolygiad o Aelodau sy'n dal cyfarwyddiaeth, ymddiriedolaeth, neu aelodaeth pan fyddant yn cael eu penodi i gyrff allanol, a phwyllgorau, MO i ystyried adborth gan aelodau a gwerth ychwanegol a pharhau i ddiweddaru'r Cod Ymddygiad i Aelodau a Swyddogion.
- MO i gynghori Swyddogion ymhellach am yr angen i ddatgelu:
  - Cyfarwyddiaethau; a
  - Chyflogaeth arall

  Gan gynnwys os ydynt yn gwrthdaro gyda buddiannau'r Cyngor neu beidio.
- Bod MO yn parhau i gynghori'r Aelodau ymhellach am yr angen i ddatgelu am letygarwch/rhoddion.
- Bod MO yn cynghori Prif Swyddogion ymhellach am yr angen i ddatgelu cysylltiadau personol agos gyda Swyddogion neu Aelodau eraill.

Caiff y materion uchod eu monitro gan y Pwyllgor fel rhan o gynllun gweithredu AGS a adroddwyd i'r Pwyllgor trwy gydol y flwyddyn.

- Grŵp Arwain ('LG') i gael ei ddiweddaru am E-ddysgu gydag AD yn adrodd i LG (rhaid i bob aelod o Staff gwblhau modiwl hyfforddiant E-ddysgu gorfodol am Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol 2015 ('WFGA'))
- Parhau i adolygu'r Cyfansoddiad er mwyn adlewyrchu newidiadau deddfwriaethol ac yn unol â'r angen.
- Y Cyngor yn gwneud paratoadau er mwyn cydymffurfio â Deddf 2021 ynghylch y Pwyllgor Archwilio (cylch gorchwyl, cylch gwaith a'r cyfansoddiad i gael ei adolygu). Mae'r newidiadau yn cynnwys:
  - newid yr enw i'r 'Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio';
  - Yr aelodaeth fydd 2/3 Cynghorydd ac 1/3 Aelod Lleyg;
  - Dyletswydd y Pwyllgor fydd penodi ei Gadeirydd a'r Ddirprwy Gadeirydd;
  - Rhaid i'r cadeirydd fod yn unigolyn lleyg;
  - Ni ddylai'r Dirprwy Gadeirydd fod yn aelod o Bwyllgor Gweithredol yr Awdurdod Lleol; ac
  - yn absenoldeb Cadeirydd a Dirprwy, dim ond Aelodau anweithredol fydd yn gallu cadeirio.
- Mae adolygiad o faint y Pwyllgor yn cael ei gynnal ar hyn o bryd.
- Cynhelir gweithgarwch i recriwtio aelodau lleyg yn ystod 2020/21, gan ystyried unrhyw ofynion dan Ddeddf 2021 a therfynu cyfnod yr Aelod Lleyg presennol yn y swydd.
- Cyhoeddir Cofrestr Penderfyniadau dirprwyedig.
- Gwaith monitro parhaus o'r niferoedd sy'n manteisio ar y modiwl e-ddysgu gorfodol ynghylch Chwythu'r Chwiban. Mae'n is na'r nifer ofynnol ar hyn o bryd.
- Adolygir y polisi Cwynion / Canmoliaeth yn ystod 2020-2021.
- Darparir hyfforddiant Moeseg / Twyll.
- Bydd Deddf 2021 yn cael effaith ar gyrff corfforaethol, gan gynnwys y Cyngor, ac mae'r paratoadau er mwyn sicrhau cydymffurfiaeth eisoes wedi cychwyn.
- Diweddarwyd y polisi FOI a'r polisi EIR. Mae'r adolygiad o'r Cynllun Cyhoeddi FOI yn cael ei gynnal ar hyn o bryd.
- Oherwydd pandemig Covid-19, mae angen i benderfyniadau gael eu gwneud gan y Grŵp Rheoli Aur am resymau brys, felly mae'n amhosibl i nifer o wasanaethau ymgynghori allan yn y gymuned ar hyn o bryd, felly diwygiwyd y sgorio er mwyn adlewyrchu hyn.

- Caiff y Polisi Ymgysylltu â'r Gymuned ei adolygu, a bydd yn cynnwys darpariaethau ar gyfer y ffordd yr ymgysylltir gyda rhanddeiliaid yn y dyfodol.
- Mae gofyn gwneud gwaith pellach ynghylch monitro yr adborth a bydd y swydd Cydraddoldeb ac Ymgysylltu newydd yn rhoi sylw i hyn.
- Cyhoeddi perfformiad y gwasanaeth gan gynnwys data ynghylch gwerth am arian a chostau.
- Ystyrir newidiadau deddfwriaethol e.e. Deddf 2021.
- Mae gwaith pellach yn mynd yn ei flaen i gysylltu mesurau Perfformio Lleol gyda holl Amcanion lefel 1 y Cynllun busnes.
- Mae'r Cyngor yn paratoi ar gyfer gweithredu newidiadau a gyflwynir gan Ddeddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021, sy'n cynnwys bod y Cyngor yn ymgynghori ac yn cyhoeddi strategaeth cyfranogiad y cyhoedd, gyda'r nod o gynyddu cyfranogiad y cyhoedd mewn democratiaeth leol, a gwella tryloywder.

<u>Covid-19</u>

Mae'r Pwyllgor wedi monitro ac adolygu gwaith y Cyngor hefyd mewn perthynas â Covid-19:

- Mae'r Pwyllgor wedi monitro datblygiad AGS, a ddiwygiwyd er mwyn ystyried Pandemig Covid-19. Mae AGS yn cynnwys adran benodedig am Bandemig Covid-19 ac mae'n cynnwys cyfeiriad at:
    - Bwerau dirprwyedig dros dro i Brif Weithredwr a Grŵp Arwain y Cyngor trwy ddefnyddio Penderfyniadau Brys ar gyfer penderfyniadau sy'n ymwneud ag ymateb COVID-19 y Cyngor, yn unol â Chyfansoddiad y Cyngor.
    - Cofnodion o Benderfyniadau Brys, ar gyfer penderfyniadau brys a wneir gan Grŵp Arwain Covid-19 ('Grŵp Rheoli Aur'), a gyhoeddir ar Wefan y Cyngor;
    - Gweithgarwch cyfnodol i adolygu Penderfyniadau Brys yr Arweinydd;
    - Map ffordd Covid-19 sy'n amlinellu'r gwasanaethau y mae'r Cyngor yn eu darparu ar hyn o bryd a chynlluniau gwasanaeth;
    - Y Cyngor yn ffurfio strategaethau a chynlluniau er mwyn ystyried risgiau a achosir gan y Pandemig;
    - Cyfarfodydd o bell rhwng CMIS a Chadeirydd y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio yn ystod y Pandemig; a'r
    - MO yn atgoffa aelodau ac Aelodau annibynnol wedi'u cyfethol o'u rhwymedigaethau ynghylch datgeliadau budd ar gyfer grantiau cyfnod clo Covid-19 i fusnesau.
- Mae'r Pwyllgor yn monitro ac yn adolygu cofrestr Risg Gorfforaethol y Cyngor, ac roedd o'r farn bod Risg R018 Covid-19 wedi lleihau, er mwyn adlewyrchu'r sefyllfa ddiweddaraf ynghylch y risgiau sy'n gysylltiedig â'r Pandemig yn dilyn llwyddiant y rhaglen frechu.

<u>Gwasanaeth Crwner – Ffioedd Trefnwyr Angladdau</u>

- Ar 9 Medi 2021, ystyriodd y Pwyllgor Adroddiad gydag atodiadau wedi'u Heithrio (gwaharddwyd y Cyhoedd a'r Wasg yn ystod y drafodaeth am yr atodiadau wedi'u Heithrio) ynghylch y Gwasanaeth Crwner – Ffioedd Trefnwyr Angladdau a chytunodd y byddai Adroddiad pellach yn cynnwys y wybodaeth yr oedd y Pwyllgor wedi gofyn amdani yn cael ei gyflwyno mewn Cyfarfod yn y dyfodol.

- Ar 19 Ionawr 2022, ystyriodd y Pwyllgor Adroddiad Dilynol am y Gwasanaeth Trefnwyr Angladdau hefyd, cytunodd nodi cynnwys a chasgliadau'r Adroddiad Dilynol, a'r Adroddiad IA (wedi'i eithrio), gan roi cyfarwyddyd i'r CLO-Cyfreithiol a Llywodraethu ac MO i ganlyn ymateb gan reolyddion a chyrff perthnasol am y mater hwn, gan nodi y dylid cael ymateb o fewn y bythefnos nesaf.

6. HUNANASESIAD A SICRWYDD

Dosbarthwyd arolwg i Aelodau'r Pwyllgor, coladwyd yr ymatebion a chynhaliwyd Gweithdy dilynol ar 3 Chwefror 2022 er mwyn paratoi Hunanasesiad ac Adolygiad Gwerthuso Effeithiolrwydd. Gan nad oedd modd i'r sawl a oedd wedi mynychu gwblhau'r adolygiad o fewn yr amserlen yn ystod y Gweithdy, ailddosbarthwyd yr Adolygiad drafft i Aelodau'r Pwyllgor ac fe'i cyflwynwyd fel copi drafft i'r Pwyllgor yn ystod ei gyfarfod ar 10 Mawrth 2022. Roedd y Pwyllgor yn cytuno gyda chynnig yr Adroddiad y dylai'r Pwyllgor ailystyried yr Adolygiad er mwyn gallu cwblhau Adolygiad terfynol a'i ailgyflwyno i'r Pwyllgor yn ystod ei Gyfarfod nesaf.

Mae Canllawiau Ymarferol CIPFA i Bwyllgorau Archwilio Awdurdodau Lleol 2018 yn nodi canllawiau am swyddogaeth a gweithrediad Pwyllgorau Archwilio mewn awdurdodau lleol. Mae'n cydnabod y dylai effeithiolrwydd Pwyllgor Archwilio gael ei farnu gan y cyfraniad y mae'n ei wneud i fusnes yr awdurdod a'i effaith fuddiol arno.

Credaf y cyflawnwyd hyn, gan bod y Pwyllgor wedi canolbwyntio ar lywodraethu, risg a sicrwydd yn ystod y flwyddyn, ac mae wedi ychwanegu gwerth trwy sicrhau bod trefniadau cadarn yn eu lle i gynorthwyo gwelliannau ar draws y Cyngor.

Y Cynghorydd Elizabeth Evans
Cadeirydd – Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio - 2021/2022